Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Diwygiadau gwasanaethau cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF-LA-0184-15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

17 Chwefror 2015

Annwyl Jocelyn,

Ymchwiliad i Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Bu ichi ysgrifennu at bob un o Weinidogion y Cabinet ar 27 Ionawr yn gofyn am eu safbwyntiau am yr ymchwiliad y mae eich pwyllgor wedi dechrau arno. Gofynnwyd imi ymateb ar ran pob un ohonom.

Mae'r rhain yn gynigion pwysig ac mae pob aelod o'r Cabinet yn rhoi gwerth ar rôl yr Ombwdsmon yng Nghymru o ran helpu i gyflawni'r gorau i ddinasyddion Cymru, hyrwyddo'r gwersi a ddysgwyd a gweithio i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Yn y 18 mis diwethaf mae'r cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus presennol wedi codi'r posibilrwydd o sicrhau pwerau newydd ar gyfer eu swyddfa.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno sylwadau ar ddau achlysur am y pwerau awgrymedig hyn: yn fwy diweddar ichi a chyn hynny i gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn fras, bu inni ddweud y gallem gefnogi rhai materion, ond mai mater i Gomisiwn y Cynulliad yw bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth. Nodwyd bod rhaglen ddeddfwriaethol y Cynulliad eisoes yn brysur iawn am y tymor presennol, ac nad yw'n debygol iawn y cyflwynir bil gan y Llywodraeth i'r perwyl hwn yn y Pedwerydd Cynulliad. Pan gawsom gyfarfod ar 15 Ionawr, dywedais fod yr amserlen a grybwyllwyd gennych i'w gweld yn uchelgeisiol ac y gallai fod yn well mynd ar drywydd hyn ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Mae'r Ombwdsmon wedi gofyn am bwerau newydd a fyddai'n newid natur gwasanaeth yr Ombwdsmon. Ar hyn o bryd mae ganddo rôl fel dyfarnwr annibynnol sy'n hyrwyddo materion sy'n destun pryder i ddinasyddion yn ogystal â gweithio i ddarbwyllo a dylanwadu ar gyrff cyhoeddus i fabwysiadu arferion da a dysgu gwersi er mwyn i'w gwasanaethau wella. Pe bai ei rôl yn cael ei newid byddai swyddfa'r Ombwdsmon yn dod yn fwy o orfodwr sy'n cyhoeddi canllawiau statudol ar ei liwt ei hun. Mae hyn yn rhywbeth y gallai'ch pwyllgor ddymuno ei ystyried wrth gymryd tystiolaeth os bwriedir symud i'r cyfeiriad hwn yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Corymatebence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Mae'n werth nodi bod rhan sylweddol o'r sector cyhoeddus wrthi'n paratoi am newid o bwys. Mae'r Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol,* a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn gofyn cwestiynau pwysig am faint, rôl a swyddogaethau (gan gynnwys cwynion a chraffu) yr awdurdodau lleol.

Yn ogystal, bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru trwy gyfrannu at gyflawni set o nodau "llesiant". Caiff y cyfrifoldeb dros sicrhau bod y dyletswyddau hynny'n cael eu parchu ei freinio mewn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru a fydd yn gallu cynnal adolygiadau i sut y mae corff cyhoeddus yn cymryd i ystyriaeth effaith hirdymor yr hyn y mae'r corff yn ei wneud o dan ddyletswydd llesiant.

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd yn darparu ar gyfer pŵer ar wahân sy'n galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio cyrff cyhoeddus penodedig at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i fodloni'r amcanion llesiant hynny.

Os rhoddir pwerau i'r Ombwdsmon i gynnal 'ymchwiliadau ar ei liwt ei hun', gallai hyn ddyblygu pwerau adolygu'r Comisiynydd a phwerau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae natur Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i nodau llesiant yn golygu bod ystod eang o faterion y gallai'r Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru edrych arnynt o bosibl o gofio eu canolbwynt ar wasanaethau cyhoeddus, a gallai'r rhain wrthdaro â phŵer ychwanegol i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau. Os gwneir y ddarpariaeth hon byddem am sicrhau ein bod yn gwahaniaethu rhwng pwerau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhai'r Ombwdsmon. Gallai fod o fudd i Swyddfa'r Ombwdsmon gyflwyno'r achos o blaid pwerau newydd ar ôl i'r diwygiadau hyn ym maes gwasanaethau cyhoeddus ennill eu plwyf a dechrau dwyn ffrwyth.

Gobeithio bod y sylwadau hyn o gymorth.



Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Diwygiadau gwasanaethau cyhoeddus